

Dysgu ac Addysdgu o Ansawdd

Cyd-destun ar gyfer dysgu

- Mae creadigrwydd yn gofyn am le ac amser o dan ac yn yr awyr agored. Dylid rhoi'r cyfle i blant ymarfer, mireinio ac atgyfnerthu eu sgiliau drwy eu defnyddio i lunio eu dawnsio eu hunain
- Dylai ymarferwyr ddarpau cyfleoedd i blant ddatblygu eu gallu creadigol ar draws yr holl Feysydd Dysgu
- Wrth i blant fagu hyder a hyfedredd, dylai ymarferwyr ddarparu cydbwysedd o ddewis a gweithgareddau strwthuredig er mwyn datblygu sgiliau penodol
- Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu strwthuredig drwy weithgareddau a gychwynnir gan y plant a gweithgareddau sydd dan gyfarwyddau yn ymarferwr:

Mae creadigrwydd yn gofyn am le ac amser o dan do ac yn yr awyr agored. Dylid rhoi'r cyfle i blant ymarfer, mireinio ac atgyfnerthu eu sgiliau drwy eu defnyddio i lunio eu dawnsio eu hunain

- Dylai ymarferwyr ddarpau cyfleoedd i blant ddatblygu eu gallu creadigol ar draws yn holl Feysydd Dysgu
- Wrth i blant fagu hyder a hyfedredd, dylai ymarferwyr ddarparu cydbwysedd o ddewis a gweithgareddau strwthuredig er mwyn datblygu sgiliau penodol
- Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu strwthuredig drwy weithgareddau a gychwynnir gan y plant a gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd yn ymarferwr

Cyflwyniad

Cyfranaid Symud Creadigol i ddatblygiad y plentyn cyfan

Goll Symud Creadigol:

- Ddatblygu'r broses o feddwl a chyfleu syniadau mewn ffordd symbolaidd sy'n addas iddynt. Mae hyn wrth wraidd cyfathrebu a gall gael ei gymhwyso ar draws y cwricwlwm
- Ddatblygu hunan-barch os rhoddir gwerth ar syniadau gwreiddiol, a thrwy symbglu chwilfrydedd a dychymyg, gall ddatblygu'r hyder i roi cynnig ar bethau newydd
- Gwella datblygiad diwylliannol, yn enwedig os defnyddir gwaith arlunwyr; crefftwyr; cerddorion, awduron, dylunwyr; actorion, coreograffwyr a dawnswyr lleol ac enwog o ddoe a heddiw fel symbyliadau. Mae pobl ar draws y byd yn defnyddio ffyrdd o symud

i ddathu eu treftadaeth a'u hunanaith ddiwylliannol. Gall hyn godi ymwybyddiaeth plant o draddodiadau, diwylliannau a chredoau gwahanol i ddatblygu parch, goddefgarwch, sensitifrwydd tuag at weithio gydag eraill a dealltwriaeth o draddodiadau, pobl, amseroedd a lleoedd y mae dawnswyr wedi deillio ohonynt

- Datblygu meddwl creadigol, sy'n hanfodol i bob Maes Dysgu arall
- Darparu cyfleoedd i blant ddatblygu a chymhwyso sgiliau megis: gwranddo, ymateb, trafod, cyfathrebu, myfyrio, datrys problemau, dyfalbarhau, cydweithio, gwerthuso, arsylwi, archwilio, arbrofi, ymchwilio yn ogystal â rheoli eu cyrff eu hunain a modelu symudiadau pobl eraill drwy gopïo, siapio a ffurfio. Bydd hyn yn

- Datblygu mwy a ymwybyddiaeth o ffyrdd gwahanol o symud a gwell rheolaeth drostynt, a defnyddio symudiadau i gyfleu ystyr arbennig. Gall gwell rheolaeth ar y corff arwain at well reolaeth ar yr emosiynau
- Atgyfnerthu dealltwriaeth: mae plant yn dysgu drwg wneud. Mae geiriau sy'n disgrifio symudiad yn datblygu ymwybyddiaeth plant o ansawdd symudiadau, e.e. 'mor drwm ag eliffant', 'mor ysgafn â phluen', 'mor gryf ag archarwr', ac ati. Bydd dysgu geirfa sy'n ymwneud â safle mewn cyd-destun ystyrion, e.e. 'o dan', 'dros' ac 'o amgylch' yn gwella'u dealltwriaeth. Gall defnydd plant o iaith greadigol hefyd
- Helpu i ddatblygu dychymuyg plant drwy eu hannog i ymateb i ddigwyddiadau, cerddoriarth a symbyliadau a'u syniadau eu hunain a gwerthfawrogi dawnsiau pobl eraill yn eu helpu i asesu, rheoli, cymryd risgiau a dod o hyd i atebion i heriau
- Helpu plant i ddysgu am iaith y corff, cydberthnasau cymdeithasol a sgiliau rhyngweithio wrth iddynt gymryd rhan a thrafod ag eraill
- Helpu plant i archwhilio'r berthynas rhwng eu feimpladau, eu gwerthoedd a'u profiadau
- Gwella sgiliau cydsymud a datblygiad, ystwythder a stamina'r cyhyrau
- Sianelu egni mewn modd cadarnhaol, gan ddatbygu'r gallu i ganolbwyntio a manwl gywirdeb
- Datblygu sgiliau creu dilyniant drwy roi trefn ar symudiadau a chyfrannu at lunio dawnsiau
- Gwneud dysgu'n hwyl. Mae gwerth cynhenid i'r broses greu, sy'n cyfrannu at les.